



# Tasgau rheoli tymhorol ar gyfer perllannau



## Gwanwyn


Bydd y coed yn deffro o'u cyfnod segur a bydd y blagur yn tyfu ac yn agor.

## Bwydo

Ar ôl y flwyddyn gyntaf o dwf, mae'n syniad da cynyddu faint o faetholion sydd yn y pridd, er mwyn paratoi ar gyfer ymlediad y gwreiddiau a'r flwyddyn gyntaf o gnwd ffrwythau. Gellir cyflawni hyn drwy ychwanegu deunydd organig sy'n llawn maeth, fel compost, at y deunydd pydredig.

## Deunydd pydredig (mulch)

Ychwanegwch ragor o ddeunydd pydredig at y cylch sydd o amgylch pob coeden er mwyn cyfyngu ar dwf chwyn ac i gadw lleithder yn y pridd. Wrth i'r tymheredd godi mae'n bwysig cynnal faint o ddŵr sydd yn y pridd.



## Haf

Bydd ffrwythau yn dechrau tyfu ar y coed afalau ac fe all coed eirin a choed ceirios roi cnwd ym mis Gorffennaf.

## Dyfrío

Mae angen llawer o ddŵr ar goed ffrwythau i dyfu ac mae'n bwysig iawn eu bod yn cael eu dyfrío yn yr haf i atal y pridd rhag sychu. Yn ddelfrydol, mae angen dyfrío'n drwm unwaith yr wythnos, ond bydd faint o ddŵr yn dibynnu ar lawiad diweddar, y math o bridd a'i strwythur.

## Teneuo'r ffrwythau

Bydd blodau bellach yn chwyddo'n ffrwythau ac mae'n bwysig teneuo'r ffrwythau er mwyn sicrhau iechyd a thwf y ffrwythau sy'n weddill. Teneuwch y ffrwythau drwy gael gwared ar rai sy'n dangos arwyddion o ddifrod neu glefyd. Dylid teneuo clystyrau o ffrwythau i ddim mwy nag ychydig o afalau neu ellyg. Mae hyn yn sicrhau nad yw pwysau'r ffrwythau yn niweidio'r canghennau.

## Cynaeafu ffrwythau â cherrig

Ym mis Gorffennaf, bydd eirin a cheirios yn barod i'w cynaeafu, eu bwyta a'u mwynhau.

## Tocio coed ffrwythau â cherrig

Ar ôl cynaeafu'r ffrwythau, dylid tocio coed ffrwythau â cherrig fel eirin a cheirios. Mae tocio'r coed hyn yn yr haf yn hanfodol er mwyn lleihau'r risg o glefyd y dail arian. Tynnwch unrhyw ddeunydd marw neu heintus ac unrhyw ganghennau sy'n croesi ei gilydd er mwyn osgoi canopi trwchus yng nghanol y goeden.

## Tocio i leihau twf

Gellir tocio coed afalau a gellyg yn ystod misoedd yr haf. Gall hyn fod o gymorth i arafu twf y coed er mwyn eu gwneud yn haws eu trin a rheoli maint y berllan.



### Hydref


'A heuir a fedir' - daeth yn bryd i chi fwynhau ffrwyth eich llafur yn y berllan.

### Cynaeafu

Mae afalau a gellyg yn barod i'w cynaeafu yn yr hydref.

### Tynnu ffrwythau sydd wedi cwmpo

Er mwyn osgoi lledaenu clefydau, mae'n syniad da cael gwared ar unrhyw ffrwythau sydd wedi cwmpo a'u gwaredu, yn ddelfrydol mewn cynhwysydd compost.



### Chwilio am ragor o adnoddau dysgu, gwybodaeth, neu ddata?

Cysylltwch ag: [addydg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:addydg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk) os gwelwch yn dda, neu ewch i <https://cyfoethnaturiol.cymru/dysgu>

Am fformatau gwahanol; print bras, neu ieithoedd gwahanol, cysylltwch ag: [ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)  
0300 065 3000



### Gaeaf

Yn y gaeaf, bydd coed ffrwythau yn mynd i gyflwr segur, gan gollu eu dail a'u ffrwythau.

### Tocio

Mae'n well tocio coed afalau a gellyg yn y gaeaf tra bo'r coed yn segur. Ychydig iawn o weithgarwch sy'n digwydd ac mae'r coed wedi colli eu dail. Mae'r goeden noeth yn ei gwneud hi'n haws gweld pa ganghennau sydd wedi'u difrodi ac sydd angen eu tynnu yn ogystal â gweld siâp cyffredinol y goeden.

### Chwynnu

Tra bod planhigion yn segur mae'n amser da i gael gwared ar unrhyw chwyn o amgylch eich coed. Drwy gael gwared ar y chwyn nawr, byddwch yn lleihau'r gystadleuaeth am faetholion a dŵr y mae'r planhigion eu hangen yn y gwanwyn.

### Impio

Mae coeden ffrwythau wedi'i himpio'n cynnwys dau ddarn o wahanol goed wedi'u huno i sicrhau y gellir tyfu'r math o ffrwythau rydych chi ei eisïau. Gwreiddgyffion yw gwaelod coed wedi'u himpio, maen nhw'n darparu'r rhan â'r gwreiddiau, tra bod impyn yn cynnwys rhan ffrwythlon y goeden.

Gellir impio â choesyn ddiwedd y gaeaf neu ddechrau'r gwanwyn tra bod impio â blaguryn yn fwyaf llwyddiannus yn yr haf. Gweler ein **Nodyn gwybodaeth - Gwreiddgyffion ac impio** am fwy o wybodaeth.